# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Tachwedd 2013 i'w hateb ar 19 Tachwedd 2013

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Gyllid Cymru? OAQ(4)1346(FM)

**2. Keith Davies (Llanelli):** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi banciau bwyd yng Nghymru? OAQ(4)1350(FM)**W**

**3. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cystadleurwydd economaidd yng Nghymru? OAQ(4)1342(FM)

**4. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gerrig milltir y disgwylir eu cyflawni gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)1345(FM)

**5. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith diwygio lles yng Nghymru? OAQ(4)1334(FM)

**6. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r wybodaeth ddiweddaraf am achosion o'r frech goch yng Nghymru? OAQ(4)1344(FM)

**7. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyd-gynhyrchu o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)1340(FM)

**8. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella economi Cymru yn y chwe blynedd diwethaf? OAQ(4)1336(FM) **TYNNWYD YNOL**

**9. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)1341(FM)

**10. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa bryd y cyfarfu'r Prif Weinidog ddiwethaf ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? OAQ(4)1348(FM)**W**

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen yng nghyd-destun llymder ariannol? OAQ(4)1343(FM)

**12. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ar gyfer rhai sydd â chanserau y mae'n anodd eu diagnosio? OAQ(4)1347(FM)

**13. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa asesiad a wnaeth y Prif Weinidog ynghylch a yw GIG Cymru'n dioddef pwysau'r gaeaf ar hyn o bryd? OAQ(4)1335(FM)

**14. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A all y Prif Weinidog gadarnhau faint o undebau credyd sy'n weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd? OAQ(4)1337(FM)

**15. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau brys yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda? OAQ(4)1349(FM)**W**